| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 30 Gorffennaf 2024 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Penaethiaid Gofal Cymdeithasol Oedolion a Digartrefedd; Gwasanaethau Plant a Chefnogaeth Gorfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau |
| **Awdur yr Adroddiad** | Cyfarwyddwr Corfforaethol: Partneriaid Busnes Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg a TGCh |
| **Teitl** | Disodli'r System Rheoli Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r contract ar gyfer system rheoli gwybodaeth dyledus Gofal Cymdeithasol Sir Ddinbych, PARIS ar fin dod i ben ac mae yna gyfle i ni weithio gyda'r rhaglen gaffael genedlaethol, Cysylltu Gofal i ddod o hyd i'w olynydd.

1.2. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Achos Busnes ar gyfer dechrau'r cam caffael cenedlaethol o'r prosiect ond nid yw'n ymrwymo Sir Ddinbych i ddyfarnu contract i gyflenwr ar ddiwedd y caffael.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I geisio cymeradwyaeth i'r Achos Busnes a chymryd rhan yn y rhaglen Cysylltu Gofal cenedlaethol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cabinet:

3.1. yn cymeradwyo'r Achos Busnes ynghlwm fel Atodiad 1 ac Atodiad 2 (Rhan 2) o'r adroddiad hwn.

3.2. yn rhoi cadarnhad ôl-weithredol i:

3.2.1 Gyfranogiad Sir Ddinbych yn y rhaglen Cysylltu Gofal cenedlaethol fel y nodir ym mharagraff 4.2, a

3.2.2 Sir Ddinbych yn dechrau'r cam caffael ar sail nad yw'n rhwymo fel y nodir ym mharagraff 4.4

3.3. angen i swyddogion ddod ag adroddiad pellach ar ddiwedd y broses gaffael i ystyried dyfarnu contract. Rhagwelir y bydd hyn ym mis Rhagfyr / Ionawr.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Roedd WCCIS yn rhaglen genedlaethol i allu darparu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig yng Nghymru drwy un datrysiad digidol, CareDirector. Roedd Sir Ddinbych wedi aros gyda'i system TG presennol PARIS a heb newid i CareDirector. Cafodd CareDirector ei weithredu mewn 16 ALl yng Nghymru. Mae CareDirector yn wynebu diwedd oes yr elfennau meddalwedd a chaledwedd a dileu'r cyflenwr meddalwedd o'r farchnad.

4.2. Cysylltu Gofal yw'r rhaglen gaffael genedlaethol newydd ar gyfer system cofnodi gofal cymdeithasol ac iechyd a rennir. Bydd Cysylltu Gofal yn disodli WCCIS fel y rhaglen gyffredinol a bydd systemau masnachol oddi ar y silff yn disodli CareDirector ar gyfer elfennau unigol (gofal cymdeithasol, iechyd meddwl ac ati) a gefnogir gan gofnod gofal a rennir wedi'i reoli'n ganolog, a safonau digidol a data. Er nad yw CSDd yn safle CareDirector, mae gennym gyfle i ymuno â'r rhaglen Cysylltu Gofal newydd.

4.3. Er nad yw PARIS wedi symud allan o ardal y farchnad yn ffurfiol, nid ydynt yn marchnata'r system fel datrysiad rheoli gwybodaeth gofal cymdeithasol mwyach. Cafodd y contract gwreiddiol ar gyfer y datrysiad ei lofnodi yn ystod 2004/5 ac mae'r dewisiadau ar gyfer estyniad o fewn y contract hwnnw wedi dod i ben. Rydym eisoes wedi derbyn y risg o her ac wedi ymestyn y contract ddwy waith i sicrhau amser ychwanegol i ystyried ein dewisiadau hirdymor yn llawn.

4.4. Mae'r dull caffael Cysylltu Gofal yn cynnwys un awdurdod tendro, Rhondda Cynon Taf, un set o ddogfennaeth dendro, gofynion a gytunwyd arnynt yn genedlaethol, y defnydd o Fframwaith Masnachol y Goron a chyfrannau rhanbarthol o fewn y tendr. Mae'r dull yn anelu i wneud y mwyaf o ymateb y farchnad (ble mae'r capasiti yn isel) a galluogi pob cyngor i gael budd o ostyngiadau prisio maint.

4.5. I'r safleoedd CareDirector mae'r angen i gaffael system gofal cymdeithasol yn hanfodol oherwydd na chefnogir y feddalwedd yn Ionawr 2026. Mae hyn wedi arwain at yr angen i ddechrau'r broses gaffael Cysylltu Gofal ar frys.

4.6. Ddydd Llun, 24 Mehefin cyhoeddodd Grŵp Cynghori SRO Cysylltu Gofal ddyddiad cau i bob ALl gadarnhau erbyn dydd Mercher, 26 Mehefin pa un a oeddent yn dymuno bod yn rhan o ymarfer tendro cydweithredol o dan arweiniad Rhondda Cynon Taf (RhCT) ai peidio. Wrth gadarnhau bod yr ALl yn dymuno bod yn rhan o'r ymarfer cydweithredol o dan arweiniad RhCT, roeddent yn cytuno i:

4.6.1 Ddatganiad o Ddiddordeb i holl gyflenwyr ar y fframwaith gael ei gyflwyno ddydd Gwener, 28 Mehefin. Mae'r Datganiad o Ddiddordeb yn nodi bod y clwstwr RhCT ac unrhyw glwstwr arall sydd wedi cadarnhau eu cyfranogiad yn bwriadu cymryd rhan yn y tendr.

4.6.2 y pecyn Gwahoddiad i Dendro (GID) i gael ei gyhoeddi gan RhCT w/d dydd Llun, 15 Gorffennaf.

4.7. Gan fod hyn yn golygu bod CSDd angen gwneud penderfyniad i ddechrau'r broses gaffael cyn y cyfarfod Cabinet ar 30 Gorffennaf, roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg wedi derbyn cefnogaeth yr Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol a'r Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol i wneud penderfyniad brys fel y caniateir o dan y cyfansoddiad. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg fod CSDd wedi cytuno i fod yn rhan o'r ymarfer tendro cydweithredol ar 26 Mehefin a dyna pam bod yr argymhellion ym mharagraff 3.2.1 a 3.2.2 yn gofyn am gadarnhad ôl-weithredol.

# 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Bydd disodli'r System Rheoli Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol yn cyfrannu at y themâu canlynol o fewn y Cynllun Corfforaethol:

- Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalus

- Sir Ddinbych sydd yn dysgu a thyfu
- Sir Ddinbych mwy teg, diogel a chyfartal

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae costau wedi eu cynnwys yn yr Achos Busnes yn Atodiad 2 - Rhan 2.

6.2. Bydd Sir Ddinbych yn adrodd yn ôl i'r Cabinet yn ddiweddarach gyda manylion llawn ar gostau, cyllid ac effaith y prosiect hwn ar y sefydliad.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer disodli'r system Rheoli Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol gan ei fod yn disodli un system gydag un arall. Fodd bynnag, ar ôl gweithredu'r system newydd rhagwelir y bydd Awdurdodau Lleol yn gweithio tuag at archwilio cyfleoedd yn y dyfodol i ddatblygu'r system i allu rhyngweithio'n uniongyrchol gyda dinasyddion. Os mai dyma'r achos yna byddai CSDd yn gweithio gyda'r Rhaglen Cysylltu Gofal cenedlaethol i ddatblygu Asesiad o Effaith ar Les ledled Cymru.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Bydd yr Achos Busnes yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Craffu Cyfalaf.

8.2. Mae CSDd yn aelod o Grŵp Ymgynghori SRO Llywodraeth Leol Cysylltu Gofal CLlLC sy'n anelu i ddarparu arbenigedd, arweiniad a gwneud penderfyniadau i sicrhau bod llais llywodraeth leol yn cael ei gynrychioli'n briodol ac y cyflawnir ei ofynion drwy weithredu'r Rhaglen Cysylltu Gofal cenedlaethol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes yna effaith ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn, fodd bynnag, bydd dyfarnu unrhyw gontract angen buddsoddiad sylweddol ac mae'n benderfyniad ynglŷn â blaenoriaethu ar adeg o heriau ariannol. Dylid gwneud pob ymdrech i gael y sefyllfa orau ar gyfer unrhyw gaffael posibl. Byddai unrhyw benderfyniad i ddyfarnu contract drwy fod yn rhan o'r broses gaffael arfaethedig yn destun penderfyniad ar wahân gan y Cabinet ar adeg pan gellir ystyried yr union gostau.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae yna gofrestr risg manwl o fewn yr Achos Busnes yn Atodiad 1.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. a111 Deddf Llywodraeth Leol 1972

11.2. a151 Deddf Llywodraeth Leol 1972

11.3. Rheol Caffael Contract 2.7.2.